**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At Aelodau y Cynulliad Cenedlaethol.

16 Chwefror 2018

Annwyl Aelod

**ADOLYGIAD O WASANAETH BYSIAU TRAWSCYMRU O ABERYSTWYTH I GAERDYDD**

Cyn y Nadolig, cytunais i gynnig cyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i gyflwyno pecyn o welliannau i gysylltiadau bws / coets sy'n cysylltu Aberystwyth – Caerfyrddin – Abertawe - Caerdydd.

Yn dilyn adborth gan deithwyr, rydym yn bwriadu cyflwyno coets fodern llawr uchel addas i gadeiriau olwyn ar y gwasanaeth dyddiol pellter hir o Aberystwyth i Gaerdydd, fydd yn cynnig taith fwy cyfforddus i deithwyr pellter hir, a hefyd gyflwyno taith fyrrach fydd yn cynnig amseroedd teithio cyflymach o ddechrau'r daith i'w diwedd. Gallaf hefyd gadarnhau fy mod wedi cytuno i gynnig i'r gwasanaeth coets hwn alw hefyd yng Nghyfnewidfa Bysiau a Threnau Port Talbot. Bydd cysylltiad bws dyddiol yn cael ei gynnal rhwng Aberystwyth – Llanbedr – Caerfyrddin ac Abertawe, gyda theithiau byr ychwanegol rhwng Caerfyrddin - Cross Hands – Abertawe yn ystod y dydd (Dyddiau'r Wythnos a Sadyrnau).

Rwy'n deall y bydd y gwasanaeth coets yn cael ei gaffael ar ein rhan gan Gyngor Sir Ceredigion, ac ar yr amod y bydd yr ymarfer tendro cystadleuol wedi'i gwblhau, rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn dechrau ddydd Llun 2 Ebrill 2018. Yn y cyfamser rwyf wedi gofyn i'r gwasanaeth bysiau presennol barhau, tan i'r pecyn newydd hwn o welliannau gael eu cyflwyno i'r gwasanaeth.

Rwyf hefyd wedi gofyn i'r gwelliannau pellach hyn i wasanaeth TrawsCymru gael digon o gyhoeddusrwydd i deithwyr cyn i'r newidiadau hyn gael eu cyflwyno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â David Hall, Rheolwr Rhwydwaith TrawsCymru ar 03000 625428 neu anfon ebost at david.hall@wales.gsi.gov.uk

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure